Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 9 Mawrth 2016 |
| Ein cyf: | HVT/2516/fgb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR GRONFA BUDDSODDI CYMRU MEWN ADFYWIO**

Diolch am anfon ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ataf, ynghyd â'r llythyr eglurhaol dyddiedig 7 Mawrth 2016 gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

Mae'n bleser gennyf nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn bob un o'r 17 o argymhellion y Pwyllgor iddi. (Yn ychwanegol, mae argymhelliad 8 yn adroddiad y Pwyllgor, sy'n cyfeirio at gamau monitro gan ei Bwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad, yn fater i'r Cynulliad ei hun yn hytrach na Llywodraeth Cymru). Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Pwyllgor yn arbennig o galonogol wrth ystyried difrifoldeb casgliadau cyffredinol Adroddiad y Pwyllgor a adlewyrchodd y digwyddiadau ers i fy adroddiad fy hun gael ei gyhoeddi, gan gynnwys tystiolaeth o werthiannau dilynol yr asedau gan y prynwr.

Nodaf hefyd y cyfeiriadau penodol yn llythyr y Gweinidog at:

- ddatganiad y Prif Weinidog ac ymddiheuriad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr;
- Llywodraeth Cymru yn cychwyn camau cyfreithiol yn erbyn Rheolwr Buddsoddi'r Gronfa, Lambert Smith Hampton (mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad 13); ac
- ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu a all camau cyfreithiol pellach fod yn angenrheidiol.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol i wersi gael eu dysgu ac i arfer gael ei wella yn bwysig iawn, oherwydd bod llawer o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor yn rhai y gellir eu cymhwyso'n ehangach i weithrediadau hyd braich a chynnal llywodraethu da.

Yn amlwg, bydd eich Pwyllgor olynol yn y Pumed Cynulliad yn dymuno craffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad, er mwyn bodloni ei hun a hefyd er mwyn ceisio sicrwydd ar ran cyhoedd Cymru na fydd y materion a gododd gyda Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn cael eu hailadrodd. Felly rwy'n awgrymu y byddai'n helpu i hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu rhai manylion mwy penodol ar amserlenni a dyddiadau cwblhau wedi'u bwriadu, oherwydd ar y cyfan nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr ymateb presennol (er enghraifft, gweler yr ymatebion i argymhellion 2, 6, 17 ac 18, lle nad oes un ohonynt yn cynnwys dyddiadau cwblhau targed). Yn ogystal, efallai y bydd y Pwyllgor am ysgrifennu at y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd, yn enwedig o ran argymhellion 4, 5, 12 ac 18. Byddai fy staff yn fwy na pharod i gynorthwyo'r Clercod wrth ddatblygu llythyr addas i Gadeirydd y Pwyllgor ei anfon.

O’m rhan i, rwy'n bwriadu monitro'n agos y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn erbyn pob un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor, gan gydnabod y gall rhai o'r rhain gymryd cryn amser i'w cwblhau (gan gynnwys yn benodol, ganlyniad yr ymgyfreitha yn erbyn Lambert Smith Hampton).

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**